# Neratinib ar gyfer triniaeth gynorthwyol estynedig i gamau cynnar canser y fron HER2-positif, sy'n dderbynnydd hormonau positif ar ôl trastuzumab cynorthwyol

20 Tachwedd 2019

Mae neratinib (Nerlynx) ar gael ar y GIG. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer canser y fron cynnar sy'n dderbynnydd ffactor twf epidermol pobl 2 (HER2)-positif ac sy'n dderbynnydd hormonau positif, ar ôl llawdriniaeth.

Er mwyn cael neratinib, rhaid eich bod wedi gorffen cymryd trastuzumab (Herceptin) yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Hefyd, os cawsoch gemotherapi cyn eich llawdriniaeth, dim ond os na wnaeth y cemotherapi leihau'r canser yn llwyr y gallwch gael neratinib. Os ydych wedi cael triniaethau eraill sy'n targedu HER2, efallai na fyddwch yn gallu cael neratinib.

Os nad ydych yn gymwys i gael neratinib, ond eich bod eisoes yn ei gymryd, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ar yr adeg orau i roi'r gorau i'w gymryd.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

**Gwybodaeth a chymorth**

Gall Gwefan y GIG fod yn fan da i gael gwybod mwy am ganser y fron ymhlith menywod a dynion.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Breast Cancer Now, 0808 800 6000
- Ymchwil Canser y DU, 0808 800 4040
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 0000

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-3602-1



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.